CYNGOR SIR Y FFLINT

# Asesiad Perfformiad Panel Adroddiad

## Tachwedd 2025



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.
Gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.

This document is also available in Welsh.
See Welsh page on our website.

Cymraeg

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Sir y Fflint Asesiad Perfformiad Panel (APP) drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cynhaliwyd yr asesiad ar y safle dros bedwar diwrnod, a daeth i ben ar 28 Tachwedd 2025 drwy gyflwyno adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif ddarganfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Cynhaliwyd yr asesiad yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i'r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLlLC, a ddatblygwyd gyda'r sector. Mae methodoleg yr APP yn cynnig fframwaith cyffredinol: nid yw'r trywydd ymholi wedi'i bennu'n bendant, ond mae'n rhoi arweiniad i'r Panel ar y meysydd y gellid eu harchwilio i fodloni'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, dylai'r graddau y mae'r Panel yn archwilio'r meysydd hynny fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor ond yn ddigonol i alluogi'r Panel i ddod i gasgliad.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad yw'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith a wneir gan reoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y Panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trylwyr a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol, archwiliadau allanol ac adolygiadau rheoleiddio.

1.5 Wrth baratoi at yr APP, bu i'r Cyngor fesur cwmpas eu gofynion er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cynnig y gwerth mwyaf ac yn cael yr effaith fwyaf posibl ar y Cyngor. Mae'r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i'w gweld ym mharagraff 3.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg cryno o gasgliadau'r Panel a adroddir yn ôl eithriadau.

## 2. Tîm Cymheiriaid

2.1 Comisiynwyd y Cymheiriaid canlynol gan CLlLC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o Gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Phil Roberts, cyn Brif Weithredwr Cyngor Abertawe.
- Uwch Aelod o'r Cymheiriaid: Y Cynghorydd Lis Burnett - Cynghorydd presennol ac Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg
- Uwch Swyddog o'r Cymheiriaid: Sarah King, Cyfarwyddwr Strategol Llywodraethu ac Adnoddau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cymar o'r Sector Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: David Powell, Ymgynghorydd, cyn swyddog adran 151 yng Nghynghorau Sir Powys a Swydd Henffordd a chyn Brif Weithredwr dros dro yng Nghyngor Sir Powys.

2.2 Cefnogwyd y Panel gan Cerith Thomas, Uwch Swyddog Polisi (Gwella - Gwasanaethau Democrataidd) o Dîm Gwella CLlLC a Dylan Owen, Uwch Reolwr Gweithredol ar gyfer Polisi a Gwella yng Nghyngor Caerdydd.

## 3. Cwmpas a Dull

3.1 Mae gofyn i'r Panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor:

- Yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol
- Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- Yn gweithredu trefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

3.2 Nododd y Cyngor y ddau faes canlynol y byddai barn cymheiriaid yn eu cylch yn werthfawr fel rhan o asesiad y Panel:

- **Cynllunio'r Gweithlu a Gweithio gyda Phartneriaid i Ymdrin â Phwysau ar y Gyllideb** - Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran gwytnwch a chynllunio'r gweithlu i sicrhau parhad a chynaliadwyedd busnes.

- **Gweithio gyda Phartneriaid i Ymdrin â Phwysau ar y Gyllideb** - Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor i ymdrin â phwysau ar y gyllideb sy'n cael ei arwain gan alw (yn enwedig mewn Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg) drwy waith partneriaeth.

3.3 Er mwyn paratoi ar gyfer yr asesiad ar y safle, cynhaliodd y Panel adolygiad o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall y Cyngor yn gyntaf. Cymerodd y Cymheiriaid hefyd ran mewn cyfarfodydd cychwynnol ar-lein.

3.4 Treuliodd y Panel dros 240 o oriau yn cynnal yr adolygiad ar y safle, a hynny'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor
- Prif Weithredwr
- Y Cabinet – Grŵp Ffocws
- Dirprwy Arweinwyr (Dau Aelod)
- Yr Aelod Cabinet Cyllid ac Adnoddau
- Grŵp Ffocws, Aelodau Etholedig - anweithredol
- Grŵp Ffocws - Arweinwyr Grwpiau'r Gwrthbleidiau (Llais y Bobl Sir y Fflint a'r Democratiaid Rhyddfrydol)
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.
- Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau
- Prif Swyddog, Llywodraethu (Swyddog Monitro)
- Prif Swyddog, Tai a Chymunedau
- Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid
- Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol
- Prif Swyddog Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth
- Rheolwr Cyllid Corfforaethol (Swyddog Adran 151)
- Rheolwr Cyswllt â Chwsmeriaid (Yn gyfrifol am y Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Cwynion a Chyfathrebu Corfforaethol)

- Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg
- Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- Grŵp Ffocws Staff - Penaethiaid Gwasanaeth
- Grŵp Ffocws Staff (Rheolwyr Canol)
- Grŵp Ffocws Staff (Staff Rheng Flaen/Gweithredol)
- Penaethiaid - Grŵp Ffocws
- Cynrychiolwyr Cyngor yr Ifanc - Grŵp Ffocws
- Arweinwyr Awdurdodau Lleol rhanbarthol Gogledd Cymru - Grŵp Ffocws
- Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol rhanbarthol Gogledd Cymru - Grŵp Ffocws
- Pennaeth Staff a Chyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig (Dwyrain) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cynghorau Tref a Chymuned – Grŵp Ffocws
- Undebau Llafur – Grŵp Ffocws
- Y Gymuned Fusnes – Grŵp Ffocws
- Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Shotton Mill Ltd
- Rheolwr Materion Cyhoeddus Airbus Brychdyn
- Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint
- Grŵp Ffocws Budd-ddeiliaid
- Grŵp Ffocws Panel Dinasyddion
- Cadeirydd y Grŵp Gweithredu 50+

## 4. Casgliad Cyffredinol

4.1 Daeth y Panel i'r casgliad bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad statudol ar hyn o bryd a'i fod:

- Yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a bod ganddo
- Drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

4.2 Cymhwysir yr asesiad cadarnhaol hwn gan y ffaith bod y Cyngor yn wynebu risgiau sylweddol o ran ei gynaliadwyedd ariannol tymor canolig, er bod ganddo weithlu ymroddedig a phartneriaethau allanol cryfion yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

4.3 Mae'r prif naratif corfforaethol yn un o ddibyniaeth allanol, a hynny bron yn gyfan gwbl oherwydd y Setliad Llywodraeth Leol. Er y cydnabyddir pwysau ariannol difrifol ar draws y sector, mae dibyniaeth y Cyngor ar y naratif hwn yn cuddio'r angen am drawsnewid strategol mewnol brys.

4.4 Er bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad ar hyn o bryd, mae'n wynebu risgiau critigol o ran gwytnwch ariannol, rhaglen drawsnewid sydd angen ei datblygu a'i symud ymlaen ar frys a diwylliant gwleidyddol tyn sy'n cymryd llawer

iawn gormod o amser yr Aelodau a’r Swyddogion yn enwedig o ran trefniadau craffu.

## 5. Cyd-destun Lleol (Ffynhonnell: Dogfen Gwmpasu APP)

### 5.1 Lleoliad a Lle

Mae Sir y Fflint yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, yn ymestyn ar hyd Aber Afon Dyfrdwy ac arfordir y gogledd ddwyrain. Mae'n ffinio â Sir Ddinbych i'r gorllewin, Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r de a gorllewin Swydd Gaer a Chaer yn Lloegr i'r dwyrain. Mae’r llain arfordirol ar hyd Aber Afon Dyfrdwy yn ardal ddiwydiannol iawn ac mae rhannau o’r arfordir gogleddol wedi esblygu’n gyrchfannau i dwristiaid. Mae tirwedd economaidd y Sir yn cael ei siapio gan ddiwydiannau mawr, yn cynnwys gweithgynhyrchu ar gyfer y sector awyrofod (Airbus), peiriannau modurol (Toyota), cynhyrchu papur (Shotton Paper), prosesu dur (Corus), ochr yn ochr ag amaethyddiaeth a thwristiaeth.

### 5.2 Poblogaeth a Demograffeg

Yn 2021, roedd poblogaeth Sir y Fflint yn 155,045, gyda 60.9% o’r preswylwyr mewn oedran gweithio - sy’n cymharu â Chymru (61%) ac ychydig yn is na Phrydain Fawr (62.9%). Mae’r oedran canolrifol wedi codi o 41 i 44 oed, sy’n adlewyrchu patrwm heneiddio sy’n fwy na chyfartaledd Cymru, sef 42 oed. Yn benodol, mae cyfran y preswylwyr sy’n 65 oed a hŷn wedi tyfu 23.7% ers cyfrifiad 2011 a rhagwelir y bydd y symudiad demograffig hwn yn parhau hyd at 2043.

### 5.3 Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Mae proffil poblogaeth Sir y Fflint yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig cyfyngedig o’i gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 97.6% o’r preswylwyr yn nodi ‘Gwyn’ o’i gymharu â 93.8% yn genedlaethol. Mae grwpiau Asiaidd ac ethnig cymysg yn cynrychioli 0.9% o’r boblogaeth. Mae’r defnydd o’r Gymraeg wedi dirywio, gyda siaradwyr yn gostwng o 13.2% yn 2011 i 11.6% yn 2021 - gostyngiad o tua 1,900 o siaradwyr. Ar hyn o bryd mae’r sir yn cynnal chwe ysgol cyfrwng Cymraeg: pum ysgol gynradd (879 o ddisgyblion) ac un ysgol uwchradd (601 o ddisgyblion).

### 5.4 Hunaniaeth Genedlaethol

Yn 2021, nododd 34.7% eu bod yn ‘Gymreig yn unig’, i lawr o 35.9% yn 2011. Yn y cyfamser, cynyddodd y rhai a nododd ‘Prydeinig yn unig’ o 23.2% i 25.8% a chynyddodd ‘Cymreig a Phrydeinig yn unig’ i 6.1%.

### 5.5 Anabledd

Ystyrir bod tua 19.1% o boblogaeth Sir y Fflint yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 21.6%.

## 5.6 Cyflogaeth

Mae gweithgarwch economaidd cryf yn Sir y Fflint, gyda 80.9% o'r preswylwyr yn weithgar yn economaidd o'i gymharu a 75.1% yng Nghymru. Mae cyfraddau cyflogaeth yn 78.6%, sy'n fwy na chyfartaledd Cymru a'r DU. Mae gweithgynhyrchu'n parhau yn gonglfaen yr economi leol, gan gyfrif am 27.1% o swyddi - tua 19,000 o swyddi o gyfanswm o 70,000.

## 5.7 Amddifadedd ac Iechyd

Er gwaethaf cyfoeth cyffredinol, mae pocedi o amddifadedd difrifol yn parhau, yn enwedig ymhlith cymunedau arfordirol fel Shotton, y Fflint a Chei Connah. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn gosod 4% o ardaloedd Sir y Fflint ymhlith y 10% o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae addysg a diogelwch cymunedol yn bryderon sylweddol. Mae anghydraddoldebau iechyd yn amlwg ac mae bylchau o hyd at 11.6 mlynedd i ddynion a 13.7 i ferched rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. Mae mynegeion diamddiffynedd yn tynnu sylw at Dreffynnon, Sealand a Shotton fel ardaloedd risg uchel, sy'n cael eu cymhlethu gan berygl llifogydd mewn sawl cymuned. Yng Ngogledd Cymru, mae gwahaniaeth rhwng hirhoedledd a'r cyfnod sy'n cael ei dreulio mewn iechyd da. Er bod merched yn byw'n hirach na dynion ar gyfartaledd (82 o'i gymharu â 78), maen nhw'n profi "bwlch iechyd" llawer iawn mwy, gan dreulio 21 mlynedd mewn iechyd gwael o'i gymharu â 16 mlynedd i ddynion. Mae hyn yn fwy amlwg yn Sir y Fflint. Er bod y cyfanswm disgwyliad oes ychydig yn uwch, mae ansawdd y blynyddoedd hynny'n is. Mae merched yn Sir y Fflint yn wynebu bwlch o 23.5 mlynedd rhwng cyfanswm eu disgwyliad oes o 82.5 a'u disgwyliad oes iach o 59. Felly hefyd, mae dynion yn yr ardal yn treulio bron i 19 mlynedd mewn iechyd gwael. Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at her ranbarthol gritigol: er bod preswylwyr yn byw'n hirach, mae cyfran sylweddol o'u bywydau, yn aml dau ddegawd a mwy, yn cynnwys salwch neu anabledd.

## 5.8 Tai

Perchen-feddiannaeth yw mwyafrif y tai yn y farchnad dai yn Sir y Fflint ar 71.7%, ac yna deiliadaethau fforddiadwy (15%) a thai rhent preifat (13.3%). Mae prisiau eiddo wedi codi'n sylweddol: cododd prisiau yn y chwartel isaf o £130,000 yn 2020 i £145,000 yn 2022 a dringodd prisiau yn y chwartel uchaf o £235,000 i £265,000. Mae costau rhent wedi codi'n gyflym hefyd, mae prisiau tai pedair ystafell wely wedi codi 24.9% ers 2020.

## 5.9 Y Sector Rhentu Preifat

Mae tua 75% o'r stoc tai cymdeithasol yn anheddau anghenion cyffredinol ac mae'r 25% arall wedi'u dynodi fel llety gwarchod i breswylwyr 55 oed a hŷn.

## 5.10 Isadeiledd a Chysylltiadau Cludiant

Mae gan Sir y Fflint gysylltiadau cludiant cryf. Mae cefnffordd yr A55 yn darparu coridor hanfodol o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n cysylltu Gogledd Cymru â rhwydwaith

traffyrdd y DU ac mae'r A494 yn cysylltu â'r M53 M56 a'r M6. Mae gwasanaethau rheilffordd yn gweithredu drwy Brif Reilffordd Gogledd Cymru a Rheilffordd y Gororau, gan sicrhau hygyrchedd rhanbarthol a chenedlaethol. Cyfrifoldeb Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru yw'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol (2025-2030) a'i nod yw ymdrin â heriau cludiant yn y dyfodol a chefnogi adfywiad economaidd.

### 5.11 Heriau Lleol o ran yr Hinsawdd

Mae Strategaeth Hinsawdd y Cyngor (2022/23) yn pennu targed uchelgeisiol o gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Mae buddsoddiadau mewn effeithlonrwydd ynni a chynlluniau adnewyddadwy yn sail i'r ymrwymiad hwn ac mae cynlluniau i gynyddu mesurau gwytnwch ac ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob rhan o'r gwaith.

### 5.12 Y Cyngor

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir y Fflint yn cael ei redeg gan weinyddiaeth glymblaid (a ffurfiwyd ym mis Hydref 2024). Mae'n glymblaid rhwng y grŵp **Llafur**, y grŵp **Annibynnol** a Grŵp yr **Eryr** (grŵp o Gynghorwyr annibynnol). Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Dave Hughes (Llafur). Mae dau Ddirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Richard Jones (Annibynnol) a'r Cynghorydd Paul Johnson (Llafur). Rhennir portffolios y Cabinet rhwng 10 aelod o'r grwpiau clymblaid.

**Tabl 1 - Cyfansoddiad y Cyngor fesul plaid/grŵp gwleidyddol**

| Plaid/Grŵp | Nifer y Cynghorwyr |
|---|---|
| Llafur | 29 |
| Annibynnol (Cyfanswm)* | 27 |
| Llais y Bobl Sir y Fflint | 6 |
| Y Democratiaid Rhyddfrydol | 3 |
| Ceidwadwyr | 1 |
| Amhleidiol | 1 |
| Cyfanswm | 67 |

*Dadansoddiad o'r Cynghorwyr Annibynnol:

- Grŵp Annibynnol - 11
- Grŵp y Gwir Annibynwyr - 10
- Grŵp yr Eryr - 5
- Aelod Annibynnol Amhleidiol - 1

**Tabl 2 - Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'u grwpiau gwleidyddol**

| Pwyllgor | Cadeirydd | Grŵp Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Y Gymuned, Tai ac Asedau | Y Cynghorydd Marion Bateman | Y Gwir Annibynwyr |
| Adnoddau Corfforaethol | Y Cynghorydd Bill Crease | Grŵp Annibynnol |

| | | |
|---|---|---|
| Addysg, Ieuenctid a Diwylliant | Y Cynghorydd Teresa Carberry | Llafur |
| Yr Amgylchedd a'r Economi | Y Cynghorydd Dave Evans | Llafur |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Y Cynghorydd Sam Swash | Llais y Bobl Sir y Fflint |

### 5.13 Tîm y Prif Swyddogion / Uwch Arweinwyr

5.13.1 Cefnogir y Prif Weithredwr, Neal Cockerton gan dîm o Brif Swyddogion ac Uwch Arweinwyr, sy'n arwain y cyfarwyddiaethau gwasanaeth mawr:

- Prif Swyddog - Llywodraethu a Swyddog Monitro
- Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol
- Prif Swyddog - Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid
- Prif Swyddog - Tai a Chymunedau
- Prif Swyddog - Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth
- Prif Swyddog - Lle a Thwf
- Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Swyddog Adran 151
- Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol
- Rheolwr Rhaglenni Cyfalaf ac Asedau

## 6. Cryfderau a Meysydd Arloesi

Gwnaeth sawl agwedd gadarnhaol yn gysylltiedig â chryfderau ac arloesedd argraff dda ar y Panel ac mae ymrwymiad a safon uchel y staff yn sail i hynny. Mae mwy o fanylion i gefnogi'r casgliad hwn yn y paragraffau a ganlyn (6.2 - 6.5.1).

### 6.2 Ymrwymiad ac Ymroddiad y Staff

Roedd ymrwymiad ac ymroddiad y staff ym mhob maes gwasanaeth ac ar bob lefel yn un o nodweddion Cyngor Sir y Fflint. Mae'n amlwg bod y sefydliad yn elwa o ymdrechion dewisol y staff a chydnabuwyd cyfraniad swyddogion unigol gan bartneriaid a budd-ddeiliaid y Cyngor.

### 6.3 Cnewyllyn o Benaethiaid Gwasanaeth

Grŵp ymroddgar, colegol, arloesol a gofalgar o uwch swyddogion sydd, ar y cyfan yn ymgorffori'r dull Un Cyngor. Mae grwpiau ffocws a chyfarfodydd â Phrif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth unigol wedi bod yn agored, croesawgar ac effeithiol. Mae'n debyg mai'r grŵp hwn yw un o asedau mwyaf y Cyngor ar hyn o bryd a dylid eu meithrin a'u datblygu.

### 6.4 Arloesi a Diwygio Gwasanaethau

6.4.1 Roedd enghreifftiau o arloesi gwasanaethau ar draws meysydd gwasanaeth, sy'n sail i ddatblygu Rhaglen Drawsnewid. Disgrifiodd rhai rheolwyr gwasanaeth

gynigion clir ar gyfer diwygio gwasanaethau hefyd, fyddai'n helpu i wella darpariaeth gwasanaethau a chefnogi gwytnwch ariannol. Mae'r rhain yn flociau adeiladu pwysig ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid.

6.4.2 Yn cyd-fynd â datblygu'r Rhaglen Drawsnewid mae cyfle i ddatblygu naratif sefydliadol sy'n cydnabod yr enghreifftiau o arloesi, arfer da ac ymroddiad staff wrth bennu map clir ar gyfer cyflawni gwytnwch ariannol a chynaliadwyedd gwasanaethau. Mae hyn yn rhan bwysig o gynnal ysbryd y staff, creu gwir synnwyr o asiantaeth er gwaetha'r heriau a defnyddio ymroddiad ac ymrwymiad y staff.

### 6.5 Mae Cynlluniau'n Seiliedig ar Leoedd a Darpariaeth Gwasanaethau'n Uchelgeisiol

Mae gan y Cyngor naratif datblygu economaidd wedi'i ddatblygu'n dda ac sy'n cael ei ddeall a'i gefnogi'n eang gan staff, aelodau etholedig a phartneriaid. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor gyfle i ddatblygu naratif tebyg o ran darpariaeth gwasanaethau statudol â gwerth uchel.

## 7. Heriau Lleol a Chenedlaethol

### 7.1 Trosolwg Ariannol

7.1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint, fel pob awdurdod lleol yng Nghymru, yn wynebu heriau sylweddol i'w gynaliadwyedd ariannol.

7.1.2 Yn 2024/25, cyflawnodd y Cyngor sefyllfa gytbwys, gyda chefnogaeth cyllid cenedlaethol untro gan Lywodraeth Cymru a chan dynnu swm cymharol fach o'i gronfa wrth gefn risg i'r gyllideb o £0.296 miliwn - sy'n cynrychioli amrywiant o ddim ond 0.1%. Cyflawnwyd hyn drwy fesurau rheoli costau blynyddol caeth, yn cynnwys rheoli swyddi gweigion, moratoriwm ar wariant heb fod yn hanfodol a gwneud y mwyaf o incwm grant.

7.1.3 Ar gyfer 2025/26, daeth y darlun ariannol yn fwy difrifol ac roedd y Cyngor yn wynebu bwlch o £23.18 miliwn yn y gyllideb. Y rheswm pennaf am hyn yw pwysau'r galw di-baid ar ofal cymdeithasol, digartrefedd a chwyddiant cludiant. Llwyddwyd i fantoli'r gyllideb drwy gyfuniad o fesurau: cynnydd o 9.5% yn Nhreth y Cyngor a gynhyrchodd £11.09 miliwn (yn cynnwys cyfraniadau at wasanaethau rhanbarthol), gostyngiadau o £3.30 miliwn yng nghostau portffolios, cyfraniad o £2.93 miliwn o gyllidebau dirprwyedig ysgolion ac addasiadau eraill drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, cyllid DEFRA ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr am wastraff pecynnu, ac amcangyfrifon pwysau diwygiedig.

7.1.4 Er gwaetha'r ymdrechion hyn, mae'r risg sylfaenol yn parhau'n sylweddol. Cododd cyllid gofal cymdeithasol 12% (£11.2 miliwn) i gefnogi dyfarniadau cyflog, ffioedd darparwyr a sefydlogrwydd y farchnad, ond er hyn mae meysydd risg uchel yn

parhau - yn enwedig gwasanaethau oedolion a phlant, lleoliadau y tu allan i'r sir a chostau digartrefedd. Ym Mis 5 2025/26, roedd y Cyngor yn rhagweld gorwariant o £5.37 miliwn, oedd wedi lleihau i £2.66 miliwn ar ôl defnyddio cronfeydd wrth gefn. Balans y Gronfa Wrth Gefn At Raid erbyn hyn yw £2.07 miliwn yn unig, gan adael cyfanswm y cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi yn £11.06 miliwn - dim ond 2.8% o'r gyllideb net, byffer gweddol isel rhag anwadalwch parhaus.

7.1.5 Wrth edrych ymlaen, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld gofyniad ychwanegol o £27.45 miliwn ar gyfer 2026/27. Mae swyddogion wedi rhybuddio nad oes fawr ddim opsiynau ar ôl ar gyfer gostyngiadau mawr mewn costau ac nid oes map mwy hirdymor yn y dull presennol i sicrhau sefydlogrwydd ariannol. Cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf ar gyfer 2025/26 yw £91.3 miliwn yn rhaglenni Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, ond mae cyfraddau darparu'n awgrymu llithriad posibl, gan ychwanegu mwy o bwysau ar fforddiadwyedd.

7.1.6 Mae ysgolion yn Sir y Fflint yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Er bod y gyllideb ysgolion ddirprwyedig wedi cael ei gwarchod i ryw raddau gyda chynnydd net o £3.995 miliwn yn 2024/25, roedd yn rhaid i'r Cyngor gael cyfraniad i ymdrin â'i fwlch cyffredinol yn y gyllideb. Dynodwyd pwysau cost cyffredinol o £12.281 miliwn, ac er gwaetha'r cynigion cychwynnol i osgoi gostyngiadau, rhoddwyd toriad o 2.5% ar waith i gyllidebau dirprwyedig ysgolion, gan gyfrannu £2.932 miliwn. Arweiniodd hyn at gynnydd net o £6.950 miliwn (5.92%). Fodd bynnag, mae diffygion ariannol yn cynyddu, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ble mae 7 allan o 11 (64%) mewn diffyg ariannol. Mae sefydlogrwydd ariannol ysgolion yn fater y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ystyried yn ei gynllunio strategol.

7.1.7 Barnodd asesiad Archwilio Cymru (2024) bod cynaliadwyedd ariannol y Cyngor mewn perygl difrifol, gan enwi cynllunio tymor byr, rowndiau arbedion heb eu cynllunio, dim digon o drawsnewid strategol a chronfeydd wrth gefn isel. Argymhellodd yr adroddiad y dylid datblygu fframwaith arbedion mwy strategol, yn seiliedig ar dystiolaeth, gwerthuso effeithiau ar ddefnyddwyr y gwasanaethau a chyflymu'r broses o gyflawni trawsnewid.

7.1.8 Ar y cyfan, mae Sir y Fflint yn dangos rheolaeth ariannol tymor byr clodwiw ond mae'n wynebu risgiau strwythurol sylweddol o'r galw am ofal cymdeithasol, digartrefedd, cyllid a diffygion ysgolion gyda'r nod o sicrhau cyllid cynaliadwy a sail cronfeydd wrth gefn cyfyngedig. Mae trawsnewid parhaus, cynllunio arbedion yn gynharach a chryfhau trosolwg aelodau yn hanfodol i adfer gwytnwch ariannol hirdymor.

## 7.2 Perfformiad Ariannol - Yn erbyn ei Gyllideb 2024/25

7.2.1 Yn erbyn ei gyllideb 2024/25, cyflawnodd Cyngor Sir y Fflint sefyllfa oedd yn sefydlog ar y cyfan, gyda dim ond mân ddiffyg gweithredol o £0.296 miliwn, yn cynrychioli dim ond 0.1% o'r gyllideb gymeradwy. Lliniarwyd yr amrywiant drwy dynnu ar y gronfa wrth gefn risg i'r gyllideb, gan ddod â'r sefyllfa i lawr i fod yn

gytbwys. Roedd y canlyniad yn is na Dangosydd Perfformiad Allweddol Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor o 0.5%, oedd yn adlewyrchu disgyblaeth ariannol gref yn ystod y flwyddyn.

7.2.2 I gyflawni hyn, rhoddodd y Cyngor gyfres o fesurau llym ar waith, yn cynnwys moratoriwm ar wariant heb fod yn hanfodol a phroses reoli swyddi gweigion, a bydd y ddau yn parhau i 2025/26. Ychwanegwyd at y camau hyn drwy wneud y mwyaf o ffrydiau incwm a sicrhau arian grant, gan ddangos gallu'r sefydliad i ymateb yn effeithiol i bwysau tymor byr.

7.2.3 Llwyddodd y Cyfrif Refeniw Tai i gynnal sefyllfa gytbwys ac roedd y gwariant net yn cyd-fynd â'r gyllideb. Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth 2025 oedd £3.043 miliwn, sy'n rhoi mesur diogelwch cymharol ond pwysig ar gyfer ymrwymiadau'n ymwneud â thai.

**7.3 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**

7.3.1 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn pennu'r rhagolygon ariannol a rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Ym mis Medi 2025, ystyriodd y Cabinet ragamcaniadau'n dynodi gofyniad cyllidebol ychwanegol o £27.45 miliwn ar gyfer 2026/27. Mae'r ffigwr yn adlewyrchu pwysau a ragwelir o gyflogau'r sector cyhoeddus, y galw ar wasanaethau a chwyddiant, ochr yn ochr â risgiau a allai gynyddu'r gofyniad eto. Ar ôl defnyddio rhagdybiaethau am gynnydd o 2% mewn Cyllid Allanol Cyfun a chynnydd o 5% mewn Treth y Cyngor, nododd y papur bod y bwlch yn gostwng i £15.45 miliwn. Fodd bynnag, ar ôl ymweliad y Panel, cafwyd cyhoeddiad am lawr posibl o 4% dan y trefniant ar gyfer cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Gan gofio'r rhagdybiaeth wreiddiol am gynnydd o 2% mewn Cyllid Allanol Cyfun, dylai hyn gau'r bwlch £5.5 miliwn yn llai eto. Ond nid yw hyn yn golygu nad oes angen datblygu rhaglen drawsnewid effeithiol ar frys i gefnogi gwytnwch ariannol.

7.3.2 Mae Timau Rheoli Portffolios yn adolygu eu sefyllfa ariannol a risgiau cysylltiedig bob mis, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae ymgysylltu ag aelodau wedi cael ei atgyfnerthu drwy sesiynau briffio rheolaidd ar y gyllideb, gyda'r nod o wella'r ddealltwriaeth o'r cyd-destun ariannol a maint yr her.

7.3.3 Er gwaetha'r ymdrechion hyn, mae gormod o bwyslais o hyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gynllunio tymor byr a llai o bwyslais ar y gorwel hirdymor. Mae adroddiadau i aelodau wedi tynnu sylw'n fynych at ddifrifoldeb yr her o ran y gyllideb a'r cyfleoedd prin am fwy o ostyngiadau mawr mewn costau o gofio'r mesurau effeithlonrwydd a gyflawnwyd eisoes. Mae'r Cyngor wedi cynnal egwyddor o osgoi gostyngiadau fyddai'n peryglu dyletswyddau statudol neu ddiogelwch gwasanaethau, ond mae'r dull hwn yn dod yn fwyfwy anodd ei gynnal.

7.3.4 Dylid ystyried cyhoeddiadau diweddar am gyllideb drafft Llywodraeth Cymru 2026/27 yn y broses gynllunio ariannol yn awr a dylid llunio bwlch 3 blynedd wedi'i addasu i ddod ag eglurder i'r sefyllfa ariannol derfynol i gefnogi aliniad rhaglen

drawsnewid a gwytnwch ariannol Sir y Fflint. Rhaid i'r Cyngor ddangos hefyd ei fod wedi ymdrin â'r pryderon a godwyd gan Archwilio Cymru, sef bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn anelu'n bennaf at bennu cyllideb y flwyddyn nesaf yn hytrach na darparu map strategol ar gyfer cynaliadwyedd. Heb symud tuag at gynllunio ariannol tymor hirach, wedi'i arwain gan bolisi, mae perygl y bydd y Cyngor yn parhau i ddibynnu ar fesurau adweithiol ac atebion tymor byr.

## 7.4 Trosolwg Ariannol - Casgliadau

7.4.1 Mae'r casgliadau a nodir isod yn crynhoi'r prif bwyntiau o drosolwg ariannol annibynnol o sefyllfa'r Cyngor ochr yn ochr â'r heriau lleol a chenedlaethol ehangach a nodwyd yn ystod yr asesiad. Er bod Sir y Fflint wedi dangos rheolaeth ariannol tymor byr clodwiw, mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at risgiau strwythurol sylweddol sy'n bygwth cynaliadwyedd y tu hwnt i'r dyfodol agos. Mae'r rhain yn cynnwys gorddibyniaeth ar gyllid untro a chronfeydd wrth gefn, pwysau cynyddol ar alw mewn gofal cymdeithasol a digartrefedd a sylfaen cronfeydd wrth gefn gweddol isel. Wedi'u cyfuno â phroblemau â chapasiti'r gweithlu, straen o ran llywodraethu a diffyg rhaglen drawsnewid sydd wedi'i gweithredu'n llawn, mae'r ffactorau hyn yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gritigol. Heb ymyrraeth bendant a strategol, mae perygl i'r sefydliad symud o sefydlogrwydd wedi'i reoli i sefyllfa fregus systemig.

7.4.2 **Risgiau i Gynaliadwyedd**
Mae dull presennol y Cyngor yn dibynnu'n drwm ar incwm anghylchol a chronfeydd wrth gefn, sefyllfa sy'n anghynaladwy y tu hwnt i 2025/26. Dim ond 2.8% o'r gyllideb net yw'r cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi, sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac sy'n gadael y sefydliad yn agored i ergydion ariannol mawr. Mae'r byffer cyfyngedig hwn yn golygu bod mwy o frys am strategaeth ariannol tymor canolig mwy cadarn a dull clir sy'n seiliedig ar risg o gryfhau sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn.

7.4.3 **Pwysau ar Wasanaethau**
Mae'r twf mewn galw mewn Gwasanaethau Cymdeithasol - yn enwedig gofal oedolion a phlant - yn parhau i fod yn fwy na'r rhagdybiaethau cyllidebol er gwaetha buddsoddiad ychwanegol. Mae digartrefedd a phwysau chwyddiannol mewn gwastraff, Priffyrdd a chludiant yn dwysau'r heriau hyn, gan greu ysgogwyr strwythurol gorwariant na ellir ymdrin â nhw drwy arbedion cynyddrannol yn unig.

7.4.4 **Gwaith Partneriaeth**
Dylai'r bartneriaeth gref rhwng y chwe chyngor fod yn sail i ddull unedig at gyllid iechyd a gofal cymdeithasol, gan alluogi ymgysylltiad wedi'i gydlynu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer trefniadau ariannu mwy cynaliadwy a chyson.

7.4.5 **Her Ariannol Tymor Canolig**
Mae'r gofyniad ychwanegol cyllidebol a ragwelir o £27.45 miliwn ar gyfer 2026/27 yn fwlch sylweddol na ellir ei gau drwy fesurau lleihau costau traddodiadol. Mae cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu harchwilio i raddau helaeth, sy'n golygu bod trawsnewid ac ailgynllunio gwasanaethau'n hanfodol i gyflawni cynaliadwyedd ariannol.

7.4.6 **Llywodraethu a Throsolwg**
Mae Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at wendidau mewn cynllunio ariannol hirdymor a thystiolaeth gyfyngedig o effaith craffu. Er bod adrodd ariannol yn fanwl, mae'n dal i ganolbwyntio ar faterion gweithredol yn hytrach na strategol. Mae ymgysylltu ag aelodau wedi gwella, ond mae oedi wedi bod wrth wneud penderfyniadau anodd ar fodelau gwasanaeth, blaenoriaethau a datgomisiynu posibl, gan gyfyngu ymhellach ar gynnydd.

7.4.7 **Cyfalaf a Buddsoddiad**
Mae rhaglen gyfalaf £91 miliwn y Cyngor yn uchelgeisiol ond mae'n dibynnu ar fenthyca a derbyniadau cyfalaf cyfyngedig. Mae cyfraddau cyflawni'n awgrymu llithriant posibl a bydd risgiau fforddiadwyedd yn cynyddu os bydd costau benthyca'n codi, gan ychwanegu mwy o bwysau ar y sefyllfa ariannol.

7.4.8 **Crynodeb**
Wrth eu hystyried gyda'i gilydd, mae'r darganfyddiadau hyn yn tanlinellu bod angen gweithredu ar frys ac yn strategol. Rhaid i Sir y Fflint gyflymu'r gwaith o ddatblygu rhaglen drawsnewid wedi'i chwmpasu'n llawn, cryfhau trefniadau llywodraethu a chraffu, a mabwysiadu dull cynllunio ariannol mwy hirdymor sy'n cyd-fynd ag ailgynllunio gwasanaethau a gwytnwch y gweithlu. Heb y mesurau hyn, bydd gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau statudol a chynnal hyder y cyhoedd mewn perygl sylweddol.

## 8. Trosolwg o'r Darganfyddiadau.

**Meysydd lleol y nododd y Cyngor y byddai barn cymheiriaid yn eu cylch yn werthfawr fel rhan o'r asesiad Panel. Y ddau faes pwyslais lleol ychwanegol yw:**

**8.1 Cynllunio'r Gweithlu a Gweithio gyda Phartneriaid i Ymdrin â Phwysau ar y Gyllideb - Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran gwytnwch a chynllunio'r gweithlu i sicrhau parhad a chynaliadwyedd busnes a**

**8.2 Gweithio gyda Phartneriaid i Ymdrin â Phwysau ar y Gyllideb - Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor i ymdrin â phwysau ar y gyllideb sy'n cael ei arwain gan alw (yn enwedig mewn Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg) drwy waith partneriaeth.**

**8.3 Sylwadau a Ffactorau Galluogi**
Mae sylwadau'r Panel ar y ddau faes pwyslais ychwanegol y gofynnwyd amdanynt gan y Cyngor wedi cael eu hymgorffori yn yr adran hon. Mae hyn yn adlewyrchu'r gorgyffwrdd sylweddol nid yn unig rhwng y ddau faes ychwanegol hwn ond hefyd â'r tair thema strategol craidd. Gan fod angen cyfyngu ar y cam ar y safle, mae'r darganfyddiadau a gyflwynir yma yn cael eu cynnal ar lefel strategol, gan sicrhau bod yr adborth yn parhau'n gryno ac yn ddefnyddiol i'r Cyngor. Dylid darllen y sylwadau hyn ar y cyd ag argymhellion y Panel a nodir yn adran 9, ynghyd â'r sylwadau eraill yn yr adroddiad.

**8.4 Cynllunio'r Gweithlu**

Mae dyfodiad y strwythur mwy gwastad a llai, wedi'i gyfuno â blynyddoedd o effeithlonrwydd ariannol yn olynol wedi arwain at ddim neu fawr ddim capasiti mewn rhai meysydd. Mae diffyg gwytnwch mewn timau a llawer o Bwyntiau Methiant Unigol yn cael effaith negyddol ar recriwtio a chadw staff ac ysbryd a lles yn gyffredinol. Mae'r pwysau'n cael ei gymhlethu gan gapasiti strategol cyfyngedig yn y strwythur uwch swyddogion, sy'n cyfyngu ar allu'r sefydliad i ysgogi trawsnewid ac ymateb yn effeithiol i heriau sy'n codi. Mae angen clir i benodi arweinydd trawsnewid pwrpasol ar lefel uwch swyddog i roi'r pwyslais strategol a'r capasiti sydd ei angen i gyflawni rhaglen drawsnewid y Cyngor yn gyflym. Drwy roi'r Model Cyflogau a argymhellir ar waith dylai hynny helpu i liniaru'r problemau gweithlu'n sylweddol, yn cynnwys y gallu i roi trefniadau cynllunio olyniaeth ar waith yn effeithiol.

**8.5 Systemau Galluogi**

Fel rhan o ddatblygiad y Rhaglen Drawsnewid, dylai'r Cyngor ystyried pa mor briodol yw ei systemau galluogi (e.e. Goramser, taliadau ychwanegol ac ati) i gefnogi darparu gwasanaethau a rheoli ei fusnes craidd yn effeithiol.

**8.6 Ymgynghori**

Gallai proses ymgynghori'r Cyngor ddefnyddio rhai o'r grwpiau yn Sir y Fflint yn well. Mae'r grwpiau hyn yn awyddus i gael eu cynnwys. Mae manteision allweddol i Sir y Fflint o ran datblygu polisi a thrawsnewid gwasanaethau. Maent yn berthnasol i ymgynghoriadau statudol (e.e. cynigion ar y gyllideb, ailgynllunio gwasanaethau), ymarferion ymgysylltu a dulliau o gynhyrchu ar y cyd.

**8.7 Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu**

8.7.1 Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar wella ei gyfathrebu mewnol ac allanol â staff, preswylwyr a budd-ddeiliaid. Gallai hyn helpu i reoli enw da'r Cyngor a lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol sy'n cael eu profi ar hyn o bryd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd caniatáu i lwyddiannau ac arloesedd gael eu dathlu. Dylai'r Cyngor ymgynghori ac ymgysylltu mwy â staff, preswylwyr a budd-ddeiliaid allweddol mewn ffordd ystyrlon ar newidiadau i wasanaethau a datblygu polisi.

8.7.2 Cymysg yw effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol, gan arwain at ddiffyg unoldeb wrth i dimau ddilyn amcanion ar wahân, gan arwain at ddyblygu neu flaenoriaethau sy'n gwrthdaro.

**8.8 Cynghorau Tref a Chymuned**

Bydd adnewyddu ac ail lansio'r Siarter rhwng y Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn helpu i feithrin perthynas gryfach a bydd ailsefydlu ymgysylltu a rhannu gwybodaeth fwy rheolaidd yn helpu â chynllunio gwasanaethau a gwaith partneriaeth.

**8.9 Masnacheiddio**

Mae dull tebycach i fusnes at ddarparu gwasanaethau a rheoli asedau'r Cyngor yn briodol i gynhyrchu incwm, gwella effeithlonrwydd neu leihau dibyniaeth ar gyllid craidd. Nid yw'n golygu cefnu ar egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus ond yn hytrach meddwl yn fasnachol i gefnogi cynaliadwyedd ariannol ac arloesedd.

**8.10 Caffael**
Mae’r trefniant ar y cyd presennol â Sir Ddinbych yn gyfyngedig o ran adnoddau a dylai’r Cyngor egluro sut mae’r swyddogaeth yn cefnogi ei nodau strategol. Mae angen iddo hefyd fod yn gliriach am sut mae hyn yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi ei arbedion corfforaethol.

**Gofynion perfformiad strategol a ystyriwyd gan y Panel**

**8.11 Y graddau y mae’r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau’n effeithiol**

8.11.1 Mae’r Cyngor yn gweithredu dan fframwaith llywodraethu cadarn yn ei hanfod, fodd bynnag, mae effeithiolrwydd cyflawni ei swyddogaethau dan straen ar hyn o bryd. Mae risgiau gweithredol, wedi’u hysgogi gan bwysau ar y gweithlu, rhagolygon ariannol heriol, diffyg Rhaglen Drawsnewid a galw cynyddol am wasanaethau’n effeithio ar allu’r Cyngor i gynnal lefelau perfformiad. Yn ein barn ni, nid yw’r strwythur uwch swyddogion presennol yn cefnogi ffordd effeithiol o gynnal swyddogaethau yn y dyfodol.

8.11.2 Mae angen newid o gynnal prosesau i fonitro canlyniadau perfformiad a chapasiti’r gweithlu’n drwyadl. Roedd tystiolaeth bod y sefydliad wedi cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad ar lefel gorfforaethol, ond rhaid ehangu hyn i lefel Maes Gwasanaeth, wedi’i gefnogi gan ddiwylliant rheoli perfformiad cryf drwy’r sefydliad cyfan. Dylai hyn gynnwys datblygu cynlluniau cyflawni gwasanaeth ac ymrwymiad i roi diweddariadau rheoli perfformiad prydlon i helpu i sicrhau bod blaenoriaethau sefydliadol yn cael eu cyflawni’n effeithiol. Mae’r bwlch presennol rhwng cynllun corfforaethol pum mlynedd y Cyngor a monitro perfformiad manwl yn rhwystro ei allu i gynllunio’n effeithiol ac i gynnal dealltwriaeth glir o ba mor dda mae’n perfformio. Bydd ymdrin â’r diffyg cyswllt hwn yn hanfodol i sicrhau aliniad strategol, gan alluogi ymyriadau amserol a chefnogi darparu blaenoriaethau sefydliadol.

**8.12 Y graddau y mae’r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol**

8.12.1 Fel y nodwyd yn adran 7, ar y cyfan, mae’r Cyngor wedi dangos rheolaeth ariannol tymor byr ond mae’n wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol.

8.12.2 Bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy’n cyd-fynd â’r Cynllun Trawsnewid yn helpu i gefnogi gwytnwch ariannol a darparu’r Cynllun Corfforaethol. Bydd yn galluogi sefydlogrwydd ariannol, yn dynodi bylchau yn y gyllideb a phwysau o ran costau’n gynnar yn y dyfodol. Bydd hefyd yn lleihau dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn a phroses mantoli’r gyllideb adweithiol yn flynyddol. Hefyd, mae’n caniatáu gwneud arbedion fesul cam a chynlluniau incwm. Byddai manteision clir wrth gyllidebu dan arweiniad polisi yn hytrach nag atebion tymor byr. Mae hefyd yn rhoi amser i gyflawni rhaglenni trawsnewid yn effeithiol ac yn cryfhau’r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol ac ailgynllunio’r gweithlu, digidol, ystâd a gwasanaethau.

8.12.3 Roedd adolygiad Archwilio Cymru yn 2024 yn cynnwys argymhelliad clir y dylai’r Cyngor ymdrin â gwendid o ran dynodi arbedion. Roedd hyn yn cynnwys dynodi

effaith arbedion ar wasanaethau a defnyddwyr y gwasanaethau. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi addasu ei ddull wrth ymateb i'r adroddiad.

## 8.13 Y graddau y mae trefniadau Llywodraethu effeithiol ar waith gan y Cyngor

8.13.1 Yn eu hanfod, mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol, sy'n amlwg mewn adroddiadau gan reoleiddwyr allanol a deunyddiau allweddol eraill a ddarllenwyd ymlaen llaw gan y Panel megis y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y 3 blynedd flaenorol. Mae hunanasesiad y Cyngor yn dangos ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion allweddol megis uniondeb a didwylledd â mwyafrif y dangosyddion llywodraethu. Fe wnaethom ninnau hefyd archwilio'r trefniadau hyn drwy ein trafodaethau fel rhan o'r cyfweliadau ar y safle.

8.13.2 Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn cael ei brofi gan risgiau sefydliadol sylweddol, yn enwedig gwytnwch y gweithlu, monitro perfformiad mewn sectorau allweddol megis cynllunio, trawsnewid digidol a'r rhaglen drawsnewid yn ehangach, tensiynau yn y diwylliant gwleidyddol yn enwedig o ran trefniadau Craffu a chynllunio ariannol tymor canolig.

8.13.3 Gellid gwella effeithiolrwydd Craffu drwy feithrin trefniadau craffu anwleidyddol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n blaenoriaethu datrysiadau adeiladol a pherthnasau cryf â budd-ddeiliaid. Dylid gwella effeithlonrwydd gweithredol hefyd drwy ddileu 'adroddiadau i'w nodi' o raglenni cyfarfodydd a datrys mân faterion gwasanaethau drwy gyswllt uniongyrchol yn hytrach na phroses bwyllgor ffurfiol i atal unrhyw oedi. Dylai papurau craffu fod yn fwy cryno. Clywodd y Panel am rai papurau oedd dros 500 tudalen o hyd a chyfarfodydd Pwyllgorau Craffu hirfaith, dros 7 awr unwaith, er mai ond 2 awr a ddyrannwyd ar ei gyfer. Yn ogystal, mae angen mwy o dystiolaeth i ddangos effaith canlyniadau'r broses graffu. Roedd y Panel wedi trefnu sesiwn â chadeiryddion y pwyllgorau craffu, ond ni ddaeth yr un cadeirydd. Cafodd y Panel wybod bod dau o'r cadeiryddion yn absennol oherwydd salwch. Mae'r Panel yn dal yn hyderus bod yr argymhellion am graffu'n seiliedig at dystiolaeth gadarn sy'n cael ei rhannu.

8.13.4 Disgwylir i'r adolygiad sydd ar y gweill o Gyfansoddiad y Cyngor gryfhau'r ffordd y defnyddir y trefniadau llywodraethu a datrys rhai o'r problemau sy'n effeithio ar eu heffeithiolrwydd ar hyn o bryd o ran rolau, perthnasoedd ac ymddygiad. Mae'r Panel yn ystyried bod hwn yn fesur cadarnhaol a byddai gwella effeithiolrwydd pwyllgorau craffu'n ganlyniad allweddol.

8.13.5 Mae gwaith ar y gweill i lunio rhaglen ddatblygu i aelodau ac uwch swyddogion sydd wir ei hangen. Dylid ei rhannu'n elfennau hyfforddi gorfodol, dymunol a chyffredinol fel bod pob cynghorydd yn gallu gwneud ei waith mewn ffordd ddiogel, sy'n cydymffurfio, cyn i'r gwaith ddechrau ar y rhaglen sefydlu ar gyfer 2027 ar y cyd â CLlLC. Mae angen symud ymlaen yn gyflym gyda'r gwaith i wella rolau, perthnasoedd ac ymddygiad aelodau etholedig ac uwch swyddogion, sydd wedi'i gefnogi gan CLlLC. Mae'r Panel yn deall bod gweithgor wedi'i sefydlu i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen. Mae'n bwysig bod cynnydd yn cael ei fonitro'n ofalus ar y lefel uchaf un ac y cedwir at brotocolau y cytunwyd arnynt.

## 9. Cyfleoedd i Wella - Argymhellion

9.1 Rydym wedi ystyried y tri maes perfformiad gofynnol yn ofalus, yn ogystal â’r ddau faes ychwanegol a nodwyd gan y Cyngor i’w hystyried yn lleol fel rhan o’r broses asesu. Mae’r adroddiad yn cynnwys nifer o arsylwadau a sylwadau am berfformiad y Cyngor ym mhob un o’r meysydd hyn. Dylid eu hystyried ynghyd â’r argymhellion a nodir isod.

9.2 Ar y cyfan, casgliad y Panel yw bod Sir y Fflint yn Gyngor sydd wedi cyflawni ei ofynion perfformiad yn y tymor byr.  Fodd bynnag, heb newid Trawsnewidiol effeithiol, mae perygl sylweddol i’w gynaliadwyedd yn y tymor canolig a hir. Er mwyn lliniaru’r risgiau hyn, rydym yn argymell y dylai’r Cyngor roi’r argymhellion a ganlyn ar waith:

**9.3 Tabl 3 - Crynodeb o'r argymhellion**

| | |
|---|---|
| **1.** | Dylai’r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o’r broses graffu yn cynnwys rheoli a chydlynu’r rhaglen graffu, hyfforddiant a datblygu’r cadeiryddion a’r aelodau craffu, ac atgyfnerthu gwir bwrpas a swyddogaeth craffu. |
| **2.** | Mae ar y Cyngor angen Cynllun Trawsnewid gydag adnoddau cywir ac sydd wedi’i gwmpasu a’i dargedu’n llawn, gydag atebolrwydd clir mewn rhaglen waith a gytunwyd arni’n gorfforaethol. Yn cynnwys pwyslais ar fasnacheiddiwch, atal a’r strategaeth ddigidol, sy’n cyd-fynd â chynllunio ariannol tymor canolig. Mae hyn yn hanfodol os yw’r Cyngor am gyflawni cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig ac mae angen iddo gael ei gwblhau ar fyrder. Mae angen cynllun gweithredu wedi’i ddiffinio’n glir ar gyfer y rhaglen drawsnewid a gwaith arweinyddiaeth CLILC, y cyfeirir ato yn argymhelliad 3 isod, wedi’u cefnogi gan adnoddau priodol a threfniadau llywodraethu cadarn. Dylid sefydlu perchnogaeth ac atebolrwydd clir ar lefel uwch swyddogion. Er bod arweinydd gwleidyddol ar gyfer trawsnewid yn ei le a bod yr angen am gapasiti uwch reoli ychwanegol wedi’i nodi, mae’r ddwy raglen wedi’u neilltu ar hyn o bryd i’r Pennaeth Llywodraethu, sydd eisoes â chyfrifoldebau sylweddol. Er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol, dylid penodi arweinydd uwch reoli penodol. |
| **3.** | Dylai’r Cyngor ddatblygu a chyflymu’r gwaith gan CLILC ar rolau, perthnasoedd ac ymddygiad. Bydd angen cynllun gwaith y cytunwyd arno i gyflawni’r argymhellion a wnaed gan CLILC.<br><br>Mae’r Panel yn ymwybodol bod gweithgor wedi’i sefydlu i ymgymryd â’r dasg hon. Bydd ar y Cyngor angen gweithredu’r gwaith hanfodol hwn yn gyflym, ei fonitro ac adolygu cynnydd. |

| | |
|---|---|
| **4.** | Dylai'r Cyngor adeiladu ar y cyflawniadau a'r perthnasoedd cadarnhaol â'i bartneriaid Awdurdod Lleol rhanbarthol yn ogystal â pharhau â'r gwaith rhagorol ar ddatblygu economaidd rhanbarthol. Dylai'r sylw yn awr ganolbwyntio ar ddull ar y cyd o ymdrin â'r problemau'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol a'r berthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. |
| **5.** | Dylai'r Cyngor gryfhau ei gapasiti rheoli strategol drwy ailedrych ar y strwythur uwch reolwyr sydd wedi bod ar waith ers dros ddegawd. |
| **6.** | Dylai'r Cyngor ystyried yn ofalus y sefyllfa ar gyllideb a diffygion ariannol ysgolion. Mae'n rhaid i hyn sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth statudol craidd hwn. Bydd cyflymu a darparu'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn sicrhau bod yr ystâd ysgolion yn economaidd, yn effeithlon ac yn canolbwyntio ar wella safonau a chyrhaeddiad addysgol. |

## 10. Cefnogaeth i Wella

Os hoffech drafod unrhyw gefnogaeth arall i wella, cysylltwch â Jo Hendy, Pennaeth Gwelliant CLlLC.

## 11. Cydnabyddiaeth

Dymuna'r Panel a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiolch i'r Cyngor am ei ymgysylltiad drwy gydol yr Asesiad Perfformiad Panel, a hoffem ddiolch yn arbennig i'r Arweinydd, y Cynghorydd Dave Hughes a'r Prif Weithredwr, Neal Cockerton, am eu cefnogaeth a'u didwylledd. Hoffem estyn ein gwerthfawrogiad a diolch hefyd i Lisa Brownbill – Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg, ac i'r Tîm Rheoli Perfformiad a Risg am eu cefnogaeth amhrisiadwy wrth gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymateb i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ar y safle.

**Lluniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Tachwedd 2025**